OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 990 (Cy. 253)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 35 (Dobshill) a Chyffordd 34 (Ewloe), Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Hydref 2017* |
| *Yn dod i rym* | *16 Hydref 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer i Fangor yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Hydref 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 35 (Dobshill) a Chyffordd 34 (Ewloe), Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 16 Hydref 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Caer i Fangor yr A55 yn Sir y Fflint.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Hydref 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 (Dobshill) hyd at y pwynt lle y mae'r ffordd ymuno wrth Gyffordd 34 (Ewloe) yn ymuno â'r A494 tua'r dwyrain wrth Ddolen Ewloe, gan gynnwys y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34.